



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12/06/2020

Title: Cyllideb 2020/21

Author: Dafydd L Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig yn ffurfiol Cyllideb Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020/21. Roedd yr adroddiad yma wedi ei ddsbarthu yn wreiddiol gydag agenda y cyfarfod Bwrdd oedd i'w gynnal ar 20 Mawrth 2020, lle roedd dau senario cyllideb wedi'u cynnwys. Er nad yw'r adroddiad dilynol heb newid o'r papur gwreiddiol a gefnogwyd gan pob aelod Bwrdd trwy ebost ar ddiwedd Mawrth, gan fod y llythyr grant ffurfiol ESF wedi ei dderbyn gan WEFO ar ôl hynny, dim ond cyllideb "Senario 2" sydd nawr yn berthnasol:-

- Senario 2 - Cyllideb 2020/21 **gydag** Arian Grant ESF (Atodiad 1b).

2. Y Penderfyniad a Geisir

2.2 **Cymeradwyo Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b).**

2.3 **Yn gofyn i'r Bwrdd roi yr hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd a'r Cadeirydd, i ymrwymo hyd at £100,000 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau pe bai angen hynny, er mwyn cynnal a gwireddu amserlen y rhaglen waith ar gyfer y Cynllun Twf terfynol.**
